

Gwerslyfrau Cyngor Ysgolion Sul Cymru

CYFRES GOLAU AR Y GAIR

Dafydd: bugail a brenin

Deunydd Ysgol Sul
i rai rhwng 3 a 14 oed

Testun: Sarah Morris

Lluniau: Dawn Wilks

Cyhoeddwyd gan
Cyngor Ysgolion Sul Cymru



Cyfres Golau ar y Gair - llyfrau yn y gyfres:

Porthi'r Pum Mil
Gideon - yn ymladd dros Dduw
Y Nadolig
Teulu Newydd Ruth
Moses - Y Dywysoges a'r Baban
Pasg – Iesu'r Brenin
Samuel – Duw yn siarad â Samuel
Pentecost – Newyddion Da lawn
Daniel – yn ffau'r Llewod
Damhegion Iesu - Cyfrinachau'r Deyrnas
Dechrau'r byd: Hanes y Creu
Iesu'n dangos ei allu
Joseff yn yr Aifft
Y Nadolig: Rhodd Duw
Iesu: Ffrind mewn angen
Moses: Gadael yr Aifft
Y Pasg: trwy lygaid Pedr
Abraham: ffrind Duw
Ysbryd Duw ar waith: Dechrau'r Eglwys
Y Beibl: Stori Fawr Duw

Iesu'r Meddyg
Dafydd: bugail a brenin
Elias: negesydd Duw
Nadolig: Goleuni'r Byd
Jona: Proffwyd Anfodlon
Iesu'n croesawu pawb
Y Pasg: y daith fawr
Jeremeia: proffwyd mewn twll
Paul: yn cyfarfod Iesu
Moses: Y Deg Gorchymyn
Iesu: y Ffrind Gorau
Solomon: y brenin doeth
Ffrindiau Iesu: rhannu'r newyddion da
Nadolig: O'r nef y daeth
Josua: yr arweinydd newydd
Iesu'r athro da
Y Pasg: "Gorffennwyd"
Esther: y frenhines ddewr
Pentecost: yr Ysbryd Glân yn dod
Dafydd: bardd a brenin (Salmau)

Dafydd © Cyhoeddiadau'r Gair 2009

Testun: Sarah Morris
Darluniau gan Dawn Wilks
Cynllun y clawr: Ynyr Roberts
Golygydd Cyffredinol / Cysodi: Aled Davies

ISBN 978 1 85994 653 4
Argraffwyd yng Nghymru gan Finline, Rhuthun.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir copïo y deunydd hwn mewn unrhyw ffordd oni cheir caniatâd y cyhoeddwr, heblaw lle rhoddir caniatâd i atgynhyrchu taflenni gwaith yn ôl y gofyn ar gyfer defnydd yn yr ysgol Sul.

Cyhoeddwyd gan:
Cyhoeddiadau'r Gair, Cyngor Ysgolion Sul Cymru,
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

Rhoddir caniatâd a rhyddid i lungopïo deunyddiau gwledol a thudalennau gweithgaredd ar gyfer eu defnyddio mewn dosbarth yn unig. Gofynnwn fod pob person sy'n defnyddio y llyfr ar gyfer dysgu yn prynu ei gopi ei hun. Mae copïo a rhannu heb awdurdod yn waharddedig.

Cyflwyniad i'r gyfres

Pan sefydlwyd Cyngor Ysgolion Sul fel menter gydenwadol ddeugain mlynedd yn ôl, y nod o'r cychwyn cyntaf oedd darparu adnoddau a gwerslyfrau addas i blant, ieuenctid ac oedolion Cymru. Dros y blynyddoedd cyhoeddwyd cyfresi o werslyfrau, megis Cyfres y Gair, Gyda'n Gilydd, ac Ar y Ffordd. Bu i lawer o'r deunydd yma gael ei gyfieithu o'r Saesneg, gan edrych i gyfeiriad Eglwys yr Alban, Scripture Union, NCEC a TnT Ministries. Bu cyfieithu erioed yn ateb delfrydol nac yn hawdd, gan bod cyd-destun yr Ysgol Sul yng Nghymru mor wahanol. Wrth gyflwyno'r gyfres newydd hon i'ch sylw, rydym yn falch o ddweud bod hon yn gyfres gwbl wreiddiol, wedi codi o lawr gwlad, ar gyfer y sefyllfa Gymreig. Mae gan Gyngor Ysgolion Sul banel gwerslyfrau cydenwadol, gydag aelodau profiadol ymysg gweinidogaethu i blant, ac mae'r grŵp hwn yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod y maes llafur a chynnwys y llyfrau. Mae'r gwersi yn cael eu paratoi gan Sarah Morris, a chanddi hithau hefyd blynyddoedd lawer o brofiad o weithio gyda phlant mewn ysgolion Sul a chlybiau plant yng nghylch Llansannan. Hyderwn felly y bydd y gyfres hon yn gymeradwy gan ein hysgolion Sul, ac yn fodd i arfogi athrawon wrth gyflwyno gwersi o Sul i Sul.

Yr hyn a geir yma yw gwerslyfr athro ar stori neu thema arbennig, a bydd llyfr newydd yn cael ei gyhoeddi bob mis. Un llyfr sydd ei angen gan bod y deunydd plant ac ieuenctid yn gynwysiedig fel taflenni ac atodiadau i'w llungopïo. O fewn pob llyfr ceir:

Cynllun gwersi ar gyfer plant meithrin i 5 oed

Ceir yma amrywiaeth o syniadau o dan y penawdau Amser Chwarae, Amser Stori, Amser Creadigol ac Amser Canu a Gweddïo. Yn ychwanegol i hyn, ceir detholiad o daflenni gwaith i'w llungopïo.

Cynllun gwersi ar gyfer plant 6-11 oed

Ceir yma ddewis eang o weithgareddau arbennig i rai rhwng 6-8 oed a 8-11 oed. Nodir amcanion clir ar gyfer pob gwersi, gyda ffyrdd gwahanol o gyflwyno a dysgu'r stori, syniadau crefft, cwis, gemau, drama, gweddïau a deunydd defosiwn. Ceir hefyd dewis o daflenni gwaith ar gyfer y ddau grŵp oed gwahanol.

Cynllun gwersi ar gyfer rhai rhwng 11-14 oed

Ceir yma dri thema yn deillio o'r stori, gydag amrywiaeth o syniadau creadigol a diddorol, a chyfle hefyd i drafod a sgwrsio.

Atodiadau a deunydd ychwanegol

Ceir nifer o atodiadau hefyd, yn cynnig syniadau ychwanegol a deunydd gweledol. Ar y CD sy'n dod gyda'r llyfr, mae yna ddetholiad ychwanegol o daflenni, rhai yn arbennig gyda phwyslais addysgol, ar gyfer y sefyllfaoedd hynny lle mae'r stori yn cael ei datblygu yn yr ysgol leol. Rhestrir yn y llyfr hefyd rhai adnoddau ychwanegol e.e. llyfr stori ar y thema neu ddeunydd gweledol a chrefft. Cofiwch hefyd bod pob un o'r storïau hyn i'w cael ar ffurf fideo, fel rhan o'r gyfres Beibl Fideo.

Gwasanaeth Teuluol

Paratowyd gwasanaeth teuluol hefyd ar gyfer bob uned, a gobeithio bydd hyn o gymorth i ddod â bwrlwm yr ysgol Sul i mewn i fywyd yr eglwys, gan greu cymuned sy'n dysgu ac addoli gyda'i gilydd.

Cofiwch gysylltu os am gymorth neu gyngor gyda'r deunydd. *Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul*



Cyflwyniad i'r athro: Dafydd

Un o'r rhaglenni mwyaf poblogaidd ar y teledu y dyddiau hyn yw 'The Apprentice.' Mae'r rhaglen yn dilyn criw o bobl ifanc proffesiynol wrth iddynt geisio ennill ffafr y dyn busnes enwog Alan Sugar gyda'r nod o ennill prentisiaeth ganddo. Mae gan y bobl ifanc sgiliau, doniau a phersonoliaethau amrywiol ac maen nhw'n ymdrechu i gyflawni tasgau penodol i arddangos eu gallu a'i potensial. Un peth sy'n dod i'r amlwg yw fod y profiad mae'r bobl ifanc wedi cael yn barod yn allweddol. Dwi'n siŵr by byddwch yn cytuno bod profiadau ein gorffennol ni wedi ein siapiro a'n paratoi ar gyfer llawer sydd yn ein haros yn y byd.


Wrth inni astudio hanes bywyd cynnar Dafydd dwi'n cael yr argraff bod Dafydd wedi cael math o brentisiaeth. Wrth i Dafydd dyfu ac wrth iddo weithio fel bugail gyda defaid ei dad, mae sgiliau a doniau a phersonoliaeth unigryw wedi datblygu. Ochr yn ochr â hyn, mae ei berthynas â'r Duw byw hefyd wedi datblygu a chryfhau. Mae'r cwbl oll yn golygu bod Dafydd yn barod am y gwaith sydd gan Dduw ar ei gyfer – Brenin Israel, dim llai.

Yn y gyfres hon byddwn yn treulio amser yn dysgu am Dafydd y bugail, am ei ffydd yn Nuw wrth iddo wynebu Goliath y cawr ac amdano'n cael ei eninio gan y proffwyd Samuel, yn ddarpar frenin Israel. Ganwyd Dafydd ar adeg cythryblus yn hanes Israel. Roedd y genedl yn rhyfela byth a hefyd. Roedd yr offeiriad wedi mynd yn hunanol a llygredig a chan nad oedd y bobl yn fodlon ymddiried yn Nuw fel arweinydd, roeddent wedi gwneud Saul yn frenin arnynt. Dyma'r sefyllfa pan oedd Dafydd yn fachgen.

Dafydd oedd yr ieuengaf o deulu mawr, a'i waith oedd gofalu am y defaid. Byddai wedi treulio llawer o'i ieuentid ar ei ben ei hun yn y caeau tra byddai ei frodyr i ffwrdd yn ymladd y Philistiaid. Yno ar y bryniau dechreuodd feithrin perthynas â Duw ac yno siaradodd Duw ag ef pan oedd yn fachgen. Mae Salm 23 yn dangos rhai o'r gwersi ddysgodd Dafydd o fod gyda'r defaid ac yno profodd ofal Duw wrth iddo ymladd ag anifeiliaid gwyllt (1 Samuel 17:34-36).


Ein gweddi a'n gobaith wrth ddilyn hanes cynnar Dafydd yw bydd y plant a'r bobl ifanc yn dod i berchen yr un ffydd a Dafydd. Roedd yn wynebu Goliath y cawr yn hyderus bod Duw gydag ef a fod gan Dduw y gallu i drechu unrhyw un. Mi fyddwn ninnau, gyda'r plant a'r bobl ifanc yn wynebu 'cewri' o bob math yn ystod ein bywydau – salwch, tristwch, casineb, di-weithdra – ond mae'n bosibl i ni eu gwrthsefyll gan wybod mai Duw yw ein 'bugail'. Mae Duw yn cynnig yr un gofal a nerth i bwy bynnag sy'n galw arno. Mae'n fraint inni gynorthwyo'r plant i roi eu ffydd yn Nuw tra'n ifanc, oherwydd mae'n sicr bod eu profiadau heddiw yn eu paratoi ar gyfer yfory hefyd.

Diolch i Aron Treharne am baratoi gwersi'r pobl ifanc ac i Meirion Morris am baratoi'r gwasanaeth.




Rhestr Adnoddau Llyfrau stori

Dafydd y Llencyn o Fugail
Pris £3.95



Pam fod Dafydd yn Ddewr?
Pris 95c



Un Bach Ydwyf
Cyfres Fi Hefyd
Pris £1.25

Dafydd y Bugail
Pris 95c

Hanes Dafydd: Beiblau Lliw

Beibl Bach i Blant: tud 188-189
Beibl Lliw y Plant, tud. 116-119
Beibl y Plant Lleiaf, tud. 82
Y Beibl Graffig: Hanes Dafydd

Fideos

Cyfres y Beibl Fideo: Tâp 2: stori 4

David the Shepherd King - Scripture Union

David and Goliath: Animated Stories from the Bible –

Nest Entertainment.

Ar gael o www.amazon.co.uk



Oed Meithrin – 5

Dafydd: 1 Samuel 16-18

Amcanion:

- ❖ I gyflwyno Dafydd y bugail ac i ystyried gofal Duw yn debyg i ofal bugail dros ei ddefaid
- ❖ I gyflwyno'r syniad bod Duw yn ein hadnabod
- ❖ I ystyried sut y bu i Dduw roi'r gallu i Dafydd i ymladd yn erbyn Goliath, a'i drechu.

AMSER CHWARAE

1. Chwarae fferm

Bydd angen fferm ac anifeiliaid i'r plant gael amser rhydd i chwarae.

Wrth chwarae, trafodwch y gwahanol anifeiliaid sy'n byw ar fferm, beth sydd ei angen arnynt, e.e. bwyd, dŵr, gofal, lloches, a disgrifiad o waith y ffermwr. Os oes rhai o'r plant yn byw ar fferm, gofynnwch iddynt a ydynt yn cael helpu a beth maen nhw'n cael ei wneud.

Esboniwch wrth y plant y byddwn yn clywed hanes bachgen yn y Beibl oedd yn fugail, yn gofalu am ddefaid ei dad.

2. Gêm chwilio

Cuddiwch anifeiliaid bach o amgylch yr ystafell ymlaen llaw er mwyn i'r plant gael chwilio amdanynt. Gellir gwahodd y plant i gymryd tro i chwilio am anifail, neu cael pawb i chwilio yr un pryd.

Gosodwch yr anifeiliaid mewn grwpiau a gofynnwch i'r plant amdanynt, e.e. pa synau maen nhw'n eu gwneud, pa fwyd maen nhw'n ei fwyta, ble maen nhw'n byw.

Esboniwch wrth y plant y byddwn yn clywed hanes bachgen yn y Beibl oedd yn fugail, yn gofalu am ddefaid ei dad.

3. Llyfrau gwybodaeth

Casglwch amrywiaeth o lyfrau am y fferm, neu anifeiliaid fferm. Efallai yr hoffech osod clustogau ar y llawr i'r plant eistedd arnynt.

Gadewch i'r plant edrych ar y llyfrau eu hunain am gyfnod, cyn edrych ar un o'r llyfrau yn fwy manwl.

Esboniwch wrth y plant y byddwn yn clywed hanes bachgen yn y Beibl oedd yn fugail, yn gofalu am ddefaid ei dad.

4. Gêm beth sy'n perthyn

Gosodwch y pedwar llun o Atodiad 1 ar waliau'r ystafell, a thrafodwch gyda'r plant enw'r anifail, sŵn yr anifail, ble mae'r anifail yn byw, beth mae'n hoffi ei fwyta.

Yna, darllenwch y brawddegau canlynol i'r plant a gofynnwch iddynt sefyll wrth ymyl yr anifail perthnasol.

Dafad: mae gan yr anifail hwn gôt o wllân; mae'r anifail hwn yn bwyta gwair; mae'r anifail hwn yn brefu; mae'r anifail hwn yn byw yn y cae.

Llew: mae gan yr anifail hwn ddannedd miniog iawn; mae'r anifail hwn yn rhuo; mae'r anifail hwn yn byw yn y sŵ.

Cath: mae'r anifail hwn yn byw yn y tŷ; mae'r anifail hwn yn bwyta bwyd tun; mae'r anifail hwn yn hoffi cael mwythau.

Mwnici: mae'r anifail hwn yn byw yn y jyngl neu yn y sŵ; mae'n hoffi chwarae yn y coed; mae'n hoffi bwyta ffrwythau, yn enwedig bananas.

Esboniwch wrth y plant y byddwn yn clywed hanes bachgen yn y Beibl oedd yn fugail, yn gofalu am ddefaid ei dad.



Oed Meithrin – 5

Dafydd: 1 Samuel 16-18

AMSER STORI

1. Dafydd y Bugail

1 Samuel 16:11; 1 Samuel 17:14,15; 1 Samuel 17:34, 35; Salm 23

Bydd angen dillad i wisgo fel Dafydd, a ffon fugail – fe wnaiff darn o ddefnydd brown a choes brws y tro. Hefyd, Beibl Bach i Blant, tudalen 188-190.

Esboniwch wrth y plant bod ein stori wir o'r Beibl heddiw am fachgen o'r enw Dafydd. Gwisgwch y dillad a gofynnwch i'r plant i ddychmygu mai chi yw Dafydd.


Wrth i chi adrodd yr hanes am Dafydd yn gofalu am y defaid, cewch feimio rhywbeth perthnasol, gyda'r plant yn chwarae rôl y defaid.

Cymerwch amser i drafod sut y bu Dafydd yn cyfansoddi caneuon yn moli Duw a pham fod Dafydd yn dweud mewn un cân bod Duw yn fugail arno ef - gweler tudalen 190 - bod Duw yn rhoi popeth iddo, yn ei arwain at fwyd a dŵr ac ar hyd llwybrau diogel, a'i gadw'n ddiogel yn y tywyllwch.

Trafodwch gyda'r plant sut mae Duw yn gofalu amdanom ninnau hefyd, er nad ydym yn ei weld, yn enwedig trwy roi pobl arbennig i ni, fel mam a dad, nain a thaid, ayyb.

2. Dafydd yn cael ei ddewis ar gyfer swydd arbennig iawn

1 Samuel 16:1-13



Bydd angen darn o bapur digon hir i greu 7 person papur, y pypedau bys: Saul, Dafydd a Samuel (Atodiad 2), pin ffelt du a siswrn. I greu'r pypedau, bydd angen tapio cylch o bapur ar gefn pob ffigwr.

Plygwch y papur o flaen y plant, tynnwch amlinelliad person a'i dorri allan i ddatguddio 7 person. Rhowch wyneb i bob un a dillad syml ac, wrth wneud, esboniwch mai dyma saith brawd Dafydd, ac mai Dafydd oedd yr ieuengaf yn y teulu. Gosodwch pyped bys Dafydd ar un o'ch bysedd i ddangos i'r plant. Dangoswch pyped bys brenin Saul. Dyma'r Brenin Saul - ef oedd brenin y wlad ble'r oedd Dafydd a'i deulu'n byw. Nid oedd y brenin Saul yn ddyn da iawn - doedd e ddim yn caru Duw mwyach. Felly, roedd Duw am ddewis dyn arall i fod yn frenin yn ei le.

Gwisgwch byped bys Samuel ac esboniwch sut ddaeth yr offeiriaid Samuel i dŷ Dafydd un diwrnod tra'r oedd Dafydd allan gyda'r defaid. Roedd Duw wedi dweud wrth Samuel ei fod wedi dewis rhywun o deulu Dafydd i fod yn frenin ar y wlad.

Felly, dyma Jesse, tad Dafydd, yn galw'r bechgyn i gyd i ddod i sefyll o flaen Samuel. Edrychodd Samuel ar yr hynaf, Eliab. Roedd Eliab yn dal ac yn gryf – pwyntiwch at y person papur cyntaf – ai dyma'r un mai Duw wedi ei ddewis? Nage, nid ef yw'r un mae Duw wedi ei ddewis. *Anogwch y plant i ysgwyd eu pennau a dweud gyda chi 'Nage, nid ef yw'r un.'*

Dywedodd Duw wrth Samuel i beidio ag edrych ar ba mor gryf yw Eliab, na pha mor olygus - roedd Duw yn gallu gweld beth oedd yng nghalon Eliab, pa fath o berson ydoedd ac nid ef oedd y person gorau.

Parhewch nes eich bod wedi mynd drwy'r 7 brawd. Mae'r ymateb yr un peth ar eu cyfer i



AMSER STORI

gyd. Nid oedd Duw wedi dewis yr un o'r saith yma i fod yn frenin ar ei bobl.

Gofynnodd Samuel i Jesse a oedd ganddo fab arall. Esboniodd Jesse wrtho fod Dafydd allan yn y caeau yn gofalu am y defaid a danfonodd rhywun i'w nôl.

Pan ddaeth Dafydd o flaen Samuel, dywedodd Duw wrtho mai dyma'r un yr oedd wedi ei ddewis i fod yn frenin ar ei bobl - roedd Duw yn gweld beth oedd yng nghalon Dafydd ac roedd Duw yn gwybod mai Dafydd oedd y person gorau yn yr holl wlad i fod yn frenin.

Felly, cymerodd Samuel yr olew, (*pwyntiwch at y corn yn llaw Samuel*), a'i dywallt dros ben Dafydd i ddangos i bawb mai dyma'r un yr oedd Duw wedi ei ddewis i fod yn frenin.

Esboniwch wrth y plant nad oedd Dafydd yn frenin ar unwaith, roedd yn rhaid iddo aros nes bod yr amser iawn wedi dod. Ond, roedd Dafydd yn gwybod bod Duw wedi ei ddewis. Trafodwch yn fras sut y mae Duw'n adnabod pob un ohonom ninnau hefyd. Mae'n gwybod pan fyddwn yn hapus neu'n drist, mae'n clywed ein geiriau caredig a'n geiriau cas, mae'n gweld pan fyddwn yn helpu neu'n pwdu. Mae Duw yn gwybod popeth amdanom ac mae'n ein caru!

3. Dafydd a'r Cawr

1 Samuel 17

Unwaith eto, bydd angen dillad a bag i wisgo un o'r plant fel Dafydd ac un fel Goliath. Gellir creu arfwisg Goliath gyda phapur 'ffoil'. Hefyd, bydd angen brodyr Dafydd o'r wers 'Dafydd yn cael ei eneinio', 5 carreg bapur a Beibl Bach i Blant, tudalen 192.

Dangoswch y bobl papur a'u defnyddio i adolygu'n fras y ddau hanes blaenorol.

Esboniwch fod brodyr Dafydd wedi mynd i ffwrdd i ymladd yn erbyn eu gelynion a bod Dafydd yn mynd â bwyd iddynt.

Gwisgwch 'Dafydd' a rhoi'r bag iddo, a'i anfon i gerdded o amgylch yr ystafell at ei frodyr.

Dangoswch y llun o'r Beibl Bach i Blant (tudalen 192) ac esboniwch beth sydd i'w weld yn y llun, h.y. brodyr Dafydd a'r milwyr eraill ar un ochr, a Goliath y cawr ar yr ochr arall.

Darllenwch dudalen 192, 193.

Gwisgwch un o'r plant i fod yn Goliath a'i roi i sefyll ar ben cadair.

Adroddwch weddill y stori yn eich geiriau eich hun, gyda Dafydd yn cymryd un o'r 5 'carreg' ac yn meimio taflu un at Goliath, ac mae o'n disgyn yn farw ar y llawr - nid oes angen sôn am Dafydd yn torri ei ben i ffwrdd gyda chleddyf!


Trafodwch gyda'r plant pa mor ddewr oedd Dafydd yn mynd i ymladd yn erbyn y cawr Goliath. Esboniwch wrth y plant fod Dafydd wedi cael cymorth rhywun – Duw ei hun. Ni fyddai Dafydd wedi ceisio ymladd yn erbyn Goliath oni bai ei fod yn sicr bod Duw gydag ef a bod Duw yn mynd i'w helpu. Roedd Dafydd yn ymddiried yn Nuw – yn credu bod Duw yn ei garu, bod Duw gydag ef a bod Duw am ei helpu.

Mae Duw yn ein caru ninnau hefyd ac mae Duw gyda ni, er nad ydym yn gallu ei weld.



AMSER CREFFT

1. Murlun 'Yr Arglwydd yw fy mugail'



Yr Arglwydd yw fy mugail


Bydd angen:

- ❖ un ddfad ar gyfer pob plentyn, gwlan cotwm, darnau o bapur neu ddefnydd du, glud
- ❖ darn o bapur neu gerdyn mawr yn gefndir gyda llwybr wedi ei farcio. Hefyd, paent mewn soseri i greu border gyda stampiau tatws/arall
- ❖ yr adnod o'r GDd i'w haddurno gyda chreonau neu siapau gludiog.

Efallai yr hoffech rannu'r grŵp yn dri, gyda phob grŵp yn gweithio ar un rhan o'r murlun am gyfnod cyn newid drosodd. Neu, gallwch weithio ar un rhan o'r murlun ar y tro.

Ar ôl gosod popeth at ei gilydd, cymerwch amser i ddysgu'r adnod gyda'ch gilydd. Atgoffwch y plant am waith Dafydd yn fugail a sut yr oedd Dafydd yn dweud fod Duw yn fugail arno ef. Sut oedd Duw yn gofalu amdano? Sut mae Duw yn gofalu amdanom ninnau?

2. Pypedau bys ac amlen siâp calon



Bydd angen y pypedau bys o Atodiad 2 ar gyfer pob plentyn, wedi'u torri allan ymlaen llaw; creonau i'w lliwio; tâp selo; amlen ar gyfer pob plentyn, gyda'r adnod ar y blaen yn barod ac sy'n ddigon mawr i ddal y pypedau bys; siapiau calonnau (wedi'u torri o bapur lapio neu sticeri) a glud.

Gadewch i'r plant liwio'r pypedau cyn eu tapio a chymerwch amser i chwarae gyda'r pypedau, gan adolygu hanes Samuel yn dewis Dafydd i fod yn frenin dros bobl Dduw. Yna, addurnwch yr amlen gyda'r calonnau, gan atgoffa'r plant wrth ichi weithio am eiriau Duw wrth Samuel, "Mae pobl yn gweld beth sydd yn y golwg, ond yr wyf fi'n gweld beth sydd yn y galon" (1 Samuel 16:7).

Anogwch y plant i adrodd yr hanes wrth eu rhieni ar ôl mynd adref gan ddefnyddio'r pypedau bysedd. Cadwch y pypedau bysedd yn yr amlen i fynd adref.

3. Llun Dafydd a Goliath

Bydd angen copi o'r daflen waith 'Dafydd a Goliath' ar gerdyn ar gyfer pob plentyn; creonau; papur sgleiniog; papur glas; papur llwyd; glud; edafedd.

Cynorthwywch y plant i dorri darnau o'r papur sgleiniog ar gyfer arfwisg Goliath, darnau o bapur glas ar gyfer yr afon a phapur llwyd ar gyfer 5 carreg a'u gludo ar y llun. Efallai yr hoffech ychwanegu deunyddiau gwahanol ar gyfer gwallt neu laswellt, ayyb.

Ar ôl gorffen, gwnewch ddau dwll ar gyfer yr edafedd er mwyn hongian y llun.

Atgoffwch y plant wrth weithio fod Dafydd yn gwybod bod Duw yn edrych ar ei ôl ac felly nad oedd ganddo ofn y cawr mawr.



Oed Meithrin – 5 Dafydd: 1 Samuel 16-18

AMSER CANU A GWEDDÏO

Rhigwm

Defnyddiwch y pypedau bysedd o amser stori/
creadigol wrth adrodd y penillion canlynol.
Gadewch i'r plant ail adrodd pob llinell ar eich ôl.

Roedd Saul am wrando ar Dduw
Ond! wnaeth o ddim gwrandio yn hir
Roedd Duw yn drist.

Cafodd Samuel neges gan Dduw
Ac i ffwrdd ag ef at Jesse
I gael hyd i frenin newydd

Dim ond bugail oedd Dafydd
Ond roedd Duw yn gweld ei galon
Dyma'r brenin newydd – Hwre!

Cân

'Yr Arglwydd yw fy mugail', Caneuon Ffydd, rhif 148

Gweddïau

O'r galon

Paratowch siâp calon o flaen llaw, neu efallai bod
gennych glustog siâp calon, neu rywbeth arall siâp
calon.

Eisteddwch mewn cylch gyda'r plant gan ddal y galon.
Atgoffwch y plant bod Duw wedi gweld beth oedd yng
nghalon Dafydd a bod Duw yn caru Dafydd yn fawr.
Dywedwch weddi syml, e.e. 'Diolch Dduw am fy
ngharu' ac yna estynnwch y galon i'r plentyn wrth eich
ymyl a'i hannog i ail adrodd eich gweddi wrth afael yn
y galon. Parhewch nes bod pob plentyn wedi cael cyfle
i ddal y galon a dweud gweddi.

Diolch am ofal Duw

Gofynnwch i'r plant, yn eu tro, i awgrymu rhywle y
byddant yn mynd, e.e. Ysgol Feithrin, i dŷ Nain, i'r siop.
Yna, adroddwch weddi syml yn diolch i Dduw am Ei
ofal yn y gwahanol lefydd sydd wedi cael eu henwi,
e.e. Diolch Dduw am edrych ar ôl Beca yn yr Ysgol
Feithrin.

Ar y diwedd, anogwch y plant i ddweud gyda'i gilydd,
'Diolch Dduw am edrych ar fy ôl i bob amser.'

AMSERLEN

Wythnos 1:

Amser Chwarae 1 neu 2;
Stori 1;
Creadigol 1;
cân.

Wythnos 2:


Amser Chwarae 3;
Stori 2;
Creadigol 2;
rhigwm.

Wythnos 3:

Amser chwarae 4;
Stori 3;
Creadigol 3;
gweddi.



Gwaith Dafydd oedd edrych ar ôl defaid ei dad.
Mae rhai o'r defaid ar goll! Tynna lun tair dafad arall neu gluda ddarnau o wîân
cotwm i greu defaid. Cofia roi coesau a phennau iddynt!





Pwy yw'r bobl yma?
Lliwia nhw yn ofalus




Roedd Duw yn gweld
beth oedd o fewn

calon

Dafydd.



Beth sy'n digwydd yn y llun yma?
 Gorffenna'r llun drwy ychwanegu papur lliwgar - glas i'r nant,
 llwyd i'r cerrig, arian i arfwisg Goliath.





Oed 6 - 11

Dafydd: 1 Samuel 16-18



Amcanion:

- ❖ I gyflwyno hanes Dafydd cyn iddo ddod yn Frenin Israel
- ❖ I drafod beth welodd Duw yng nghalon Dafydd a beth sydd yn ein calonnau ninnau
- ❖ I ystyried ffydd Dafydd wrth iddo wynebu Goliath.

Adnod i'r gyfres:

1 Samuel 16:7 'Yr hyn sydd yn y golwg a wêl dyn, ond mae'r Arglwydd yn gweld beth sydd yn y galon.'

Cân i'r gyfres: 'Duw fy nhad sydd gerllaw' Rhif 6 Tyrdd i Ddathlu

FFYRDD I GYFLWYNO'R THEMA

1. Gemau defaid a bleiddiaid

❖ Cael y plant i sefyll mewn cylch, gydag un person tu allan i'r cylch - fe neu hi ydy'r blaidd. Mae'r blaidd yn cerdded o amgylch y cylch yn taro bob plentyn - yn ysgafn(!) ac yn dweud wrth bob un, 'dafad.' Caiff y blaidd ddewis dweud 'bugail' wrth unrhyw un o'r plant ac yna dechrau rhedeg o amgylch y cylch tra bod y plentyn sydd wedi cael ei enwi/henwi'n 'fugail' yn rhedeg ar ei ôl/hôl yn ceisio ei dd/dal cyn iddo/i gyrraedd y man gwag yn y cylch.

Os bydd y blaidd yn cyrraedd y man gwag heb gael ei ddal, mae'n aros yno, gyda'r 'bugail' a oedd yn ceisio ei ddal yn dod yn 'flaidd.' Mae'r blaidd newydd nawr yn mynd o amgylch y cylch gan ddweud 'dafad' wrth bawb, cyn dewis rhywun i fod yn 'fugail'. Mae'r 'bugail' yn rhedeg ar ôl y blaidd, fel ag o'r blaen, yn ceisio cyrraedd y man gwag yn y cylch cyn cael ei ddal gan y bugail ayyb. Gellir ei chwarae am gyfnod penodol.

Trafodwch waith bugail gyda'r plant, ac esboniwch y byddwn yn clywed hanes bugail yn ein stori wir o'r Beibl heddiw.

❖ Bydd angen hŵpiau, neu ddarnau o gerdyn, maint A4 a rhyw fath o gerddoriaeth. Gosodwch yr hŵpiau neu'r cerdyn ar y llawr. Penodwch ddau blentyn i fod yn fleiddiaid, gyda'r plant eraill yn ddefaid. Tra bod y gerddoriaeth yn chwarae dylai'r defaid chwarae yn y caeau, ond pam fydd y gerddoriaeth yn distewi, mae'n rhaid iddynt geisio lloches yn un o'r corlannau (mewn hŵp neu yn sefyll ar ddarn o gerdyn) cyn i'r blaidd ei ddal.

Bydd y defaid sy'n cael eu dal yn mynd allan o'r gêm. Codwch un o'r hŵpiau /darnau o gerdyn a pharhau i chwarae nes bydd dim ond un neu ddwy o'r defaid sydd ar ôl - dyma'r enillwyr.

Trafodwch waith bugail gyda'r plant, ac esboniwch y byddwn yn clywed hanes bugail yn ein stori wir o'r Beibl heddiw.



FFYRDD I GYFLWYNO'R THEMA

2. Pasio'r parcel

Paratowch tua 5 parcel ymlaen llaw. Nod y gêm yw i'r plant ddyfalu beth sydd yn y parcel a bydd angen lapio eitemau cyffredin mewn modd a fydd yn ei gwneud hi'n anodd iawn i'r plant wybod beth sydd tu mewn, e.e. sbectol haul, pêl feddal, DVD, bar o siocled, oriawr. Hefyd, darn bach o bapur a phensel i bob plentyn i gael cofnodi eu hatebion, a ffotograff o berson sy'n adnabyddus i chi ond nid i'r plant.

Eisteddych mewn cylch, os yn bosibl, a phasiwch un eitem ar y tro o amgylch y cylch. Ar ôl i bawb gael teimlo'r parcel, cânt ysgrifennu yr hyn y maen nhw'n gredu sydd y tu mewn iddo.

Ar ôl teimlo pob parcel, gadewch i'r plant eu hagor a gweld faint o'r eitemau maen nhw wedi dyfalu'n gywir.

Esboniwch nad ydy edrych ar y tu allan ddim bob amser yn ddigon i ni gael gwybod beth sydd tu mewn.

Dangoswch lun eich ffrind a gofynnwch i'r plant sut berson yw'r person yn y ffotograff. Efallai y bydd y plant yn ceisio dyfalu, ond dylid pwysleisio ei bod hi'n amhosibl iddyn nhw wybod yn iawn sut un yw eich ffrind heb ei h/adnabod eu hunain. Rhannwch ychydig o ffeithiau am eich ffrind i atgyfnerthu'r pwynt. Esboniwch y byddwn yn clywed hanes Dafydd heddiw yn ein stori wir o'r Beibl, pan mae Duw yn dweud rhywbeth tebyg iawn.

3. Cael trefn

Rhannwch y plant yn dimoedd a rhowch sialens iddynt i gael y tîm i drefn yn ôl y categorïau canlynol (gyda'r tîm cyflymaf yn ennill y rownd): trefn oedran; trefn taldra;

maint traed; misoedd eu pen-blwyddi; llythyren gyntaf eu cyfenwau; lliw gwallt - goleuaf i'r tywyllaf; nifer sy'n byw yn eu cartref; hoff liw - gyda'r llythyren gyntaf yn ôl trefn yr wyddor.

Trafodwch aelodau'r teulu gyda'r plant. Pwy yw'r hynaf, ieuengaf, cryfaf (!), mwyaf anniben, mwyaf swil, mwyaf doniol?

Yng nghyfnod Dafydd, roedd plentyn ieuengaf y teulu'n cael gwneud y swyddi mwyaf diflas! Y plentyn hynaf oedd y pwysicaf. Ond, digwyddodd rhywbeth rhyfedd iawn yn hanes teulu Dafydd - cafodd Dafydd ei ddewis gan Dduw i gael y swydd bwysicaf yn y wlad, a chawn glywed yr hanes hwn yn ein stori wir o'r Beibl heddiw.

4. Gêm anelu

Bydd angen rhodyn o bapur wal a phin ffelt er mwyn creu amlinellad 'maint go iawn' (*life size*) o un o'r plant a 3 pêl sbwng (gwnaiff peli o hen sanau y tro'n iawn).

Tynnwch lun o amgylch un o'r plant - dyma Goliath - a'i osod i fyny ar y wal. Gallwch ychwanegu wyneb neu ddillad sy'n addas i 'Goliath.' Rhannwch y plant yn dimoedd gyda 3 pêl i bob tîm. Nod y gêm yw ennill pwyntiau i'r tîm trwy daro Goliath ar ei ben. Mae pob aelod o'r tîm yn cymryd tro i daflu 3 pêl at Goliath. Cadwch gyfrif o'r sgôr a rhowch wobwr i'r tîm buddugol.

Mae'n debyg y bydd hanes Dafydd yn trechu Goliath yn adnabyddus i'r plant, felly esboniwch y byddwn yn darganfod heddiw beth oedd cyfrinach Dafydd wrth iddo drechu Goliath.



FFYRDD I GYFLWYNO'R STORI

1. Defnyddio rhan o ffilm

(Gweler y rhestr adnoddau sydd ar gael ar dudalen 4).

2. Dafydd y Bugail

(Salm 23, 24; 1 Samuel 17:34-37)

Bydd angen Beibl Lliw y Plant, copïau o'r daflen waith 4.

❖ Dechreuwch droi trwy dudalennau'r Beibl Lliw o'r hanes cyntaf, gan edrych yn fras ar yr hanesion sydd yn gyfarwydd i'r plant cyn hanes Dafydd (sy'n cychwyn ar dudalen 117). Trowch i dudalen 117 yn y Beibl Lliw a darllenwch y paragraff sydd o dan y llun o dan y teitl 'Llanc o fachgen.'

Trafodwch sut fywyd oedd gan Dafydd yn gofalu am y defaid a sut y byddai'r plant yn ymateb i'r fath fywyd.

❖ I gymhwyso:

Naill ai,
defnyddiwch y daflen waith sy'n edrych ar Salm 23, neu darllenwch Salm 23 gyda'r plant gan ofyn iddynt ddychmygu Dafydd yn cerdded yn y brynau gyda'r defaid, yn eistedd i lawr ac yn meddwl sut y mae Duw yn gofalu amdano ef fel y mae e'n gofalu am y defaid. Yn adnod 4, mae Dafydd yn cyfeirio at le tywyll – efallai ei fod yn cofio sut y bu i Dduw ei gynorthwyo i ladd y llew a'r arth.

Yna, yn adnod 5, mae'n cofio sut mae Duw wedi darparu popeth sydd ei angen arno, hyd yn oed wrth wynebu gelynion. Mae Dafydd yn sicr (adnod 6) y bydd Duw yn dod â phethau da iddo a bydd Duw yn dangos trugaredd iddo ar hyd ei fywyd.

Mae'n gorffen trwy ddweud ei fod am fod gyda Duw (yn nhŷ'r Arglwydd) drwy'r amser. Roedd cwmni Duw yn bwysig i Dafydd.

Mae'r Salm yn dangos wrthym fod Duw yn bwysig iawn i Dafydd – roedd Dafydd yn gweld bod Duw gydag ef o hyd, yn rhoi popeth iddo, yn ei garu.

Pan fyddwn yn gwahodd Iesu i'n calonnau ac yn gofyn iddo faddau ein pechodau, byddwn ninnau'n gallu profi Duw yn fugail arnom ninnau hefyd.

Neu,
trafodwch 'beth yw eu hoff bynciau'r plant yn yr ysgol'. Efallai yr hoffech greu graff syml i ddangos yr ymatebion.

Pwysleiswch ein bod yn dysgu llawer o bethau yn yr ysgol a fydd o gymorth inni yn y dyfodol. Yn yr un modd, dysgodd Dafydd lawer am Dduw tra'r oedd yn fachgen yn edrych ar ôl defaid ei dad. Bu hynny o gymorth iddo yn ddiweddarach yn ei fywyd. Dysgodd bod Duw yn gofalu amdano. Darllenwch Salm 23 gyda'r plant ac esboniwch mai dyma un o'r caneuon ysgrifennodd Dafydd wrth gofio am ei amser fel bugail. Nodwch y geiriau perthnasol i fywyd y bugail - ffon, dyfroedd, arwain ayyb. Mae'r Salm yn dangos wrthym fod Duw yn bwysig iawn i Dafydd – roedd Dafydd yn gweld fod Duw gydag ef o hyd, yn rhoi popeth iddo, yn ei garu.

Pan fyddwn yn gwahodd Iesu i'n calonnau ac yn gofyn iddo faddau ein pechodau, byddwn yn gallu profi Duw yn fugail arnom ninnau hefyd.



FFYRDD I GYFLWYNO'R STORI

3. Dafydd yn cael ei eneinio (1 Samuel 16)

Bydd angen y llun o Atodiad 3, amrywiaeth o ffrwyth egsoftig, cylllell a phlât, llun calon, Beibl Bach i Blant, cyflwyniad PowerPoint yr adnod i'w dysgu.

Atgoffwch y plant am hanes Dafydd y bugail, trwy ddarllen tudalen 188 - 190 o'r Beibl Bach i Blant. Cyn darllen tudalen 191, esboniwch mai dyma a ddigwyddodd un diwrnod wrth i Dafydd fwrw ati gyda'i waith o ofalu am y defaid.

Adroddwch hanes 1 Samuel:16 yn eich geiriau eich hun, gyda'r plant yn cymryd rhan Samuel, Tad Dafydd - Jesse, brodyr Dafydd (7 os yn bosibl) a Dafydd.

Ceir y prif bwynt yn adnod 7 – sef bod Duw yn gweld calon pob un, a Dafydd oedd yr un yr oedd Duw wedi'i ddewis.

Cymhwys

Dangoswch y ffrwythau i'r plant. Mae rhai ohonynt yn ddigon hyll ar y tu allan! Torrwch y ffrwyth a'i rannu, gan wahodd y plant i'w flasu. Er bod y tu allan yn annymunol, mae'r cynnwys yn felys ac yn dderbyniol iawn!

Tybed beth welodd Duw yng nghalon Dafydd? *Dangoswch Atodiad 3 i'r plant ac ysgrifennwch y geiriau perthnasol o amgylch Dafydd yn ystod y drafodaeth ganlynol.*

Os wnaethoch ddefnyddio'r daflen 'Dafydd y Bugail,' defnyddiwch un o'r taflenni i atgoffa'r plant o'r hyn a welwyd yn Salm 23. Arweiniwch y plant i ystyried fod Duw yn gwybod bod Dafydd yn ei garu, yn ymddiried ynddo i fod yn fugail arno, yn cydnabod bod Duw yn ei arwain, yn ei amddiffyn, yn rhoi popeth oedd angen arno, roedd Duw yn gwybod fod Dafydd yn hoffi cael ei gwmni. Roedd hyn yn plesio Duw yn fawr, dyma a welodd Duw yng nghalon Dafydd.

Tybed beth mae Duw yn ei weld yn ein calonnau ninnau heddiw?

Gosodwch y siâp calon o flaen y plant. Gofynnwch y cwestiynau canlynol iddynt ac

ysgrifennwch eiriau perthnasol ar y siâp: Pwy sy'n caru Duw heddiw? Pwy sydd wedi ffraeo gyda rhywun heddiw? Pwy sydd wedi bod yn garedig gyda rhywun heddiw? Pwy sydd heb fawr o amynedd heddiw? Pwy sydd wedi anghofio am Dduw yn ystod yr wythnos ddiwethaf? Pwysleiswch fod Duw yn gweld beth sydd yng nghalonau pob un ohonom ac mae'n gweld y pethau da a'r pethau drwg. Nid oedd Dafydd yn berffaith chwaith, ond gwelodd Duw fod Dafydd am ei blesio mwy na dim byd arall. Atgoffwch y plant fod Duw'n fodlon ac yn barod i faddau inni a'n helpu i wneud yr hyn sy'n dda. Dim ond gofyn sydd raid!

Byddai'n dda gweddio gyda'r plant, a rhoi cyfle iddynt ystyried beth sydd yn eu calonnau ac i ofyn am faddeuant.

Cadwch y galon ar gyfer cymhwyso'r hanes 'Dafydd a Goliath.'

Dysgu'r adnod

1 Samuel 16:7 - 'Yr hyn sydd yn y golwg a wêl dyn, ond mae'r Arglwydd yn gweld beth sydd yn y galon.'

❖ Defnyddio'r cyflwyniad PowerPoint sydd ar y GDd, *neu*

❖ Gwnewch siâp calon, ar bapur coch os yn bosibl, a chopiwch yr adnod arno. Os oes gennych grŵp mawr o blant, ystyriwch eu rhannu'n dimoedd gyda chalon ar gyfer pob tîm. Torrwch y calonnau i 5 darn a'u gosod ar un pen o'r ystafell, gyferbyn â'r timoedd. Mae aelodau'r tîm yn cymryd tro i estyn un rhan o'r adnod ac, ar ôl eu casglu i gyd, yn ceisio ffurfio'r adnod a'i dysgu. Gellir ei chwarae fel ras neu yn ras yn erbyn y cloc.

Cymerwch amser i drafod yr hyn a welodd Duw yng nghalon Dafydd ac i herio'r plant i ystyried beth mae Duw yn ei weld yn ein calonnau ninnau. Pwysleiswch y llawenydd o wybod fod Duw yn fodlon maddau ein pechodau a'n glanhau oddi wrthynt pan fyddwn yn ceisio maddeuant.



FFYRDD I GYFLWYNO'R STORI

4. Dafydd a Goliath (1 Samuel 17)

Bydd angen copi o Atodiad 4 - 5 cerrig gyda'r stori i'w rhoi mewn trefn; bocs o siocledi neu rywbeth blasus i'w fwyta; Beibl; y galon a ddefnyddiwyd i gymhwyso'r hanes blaenorol, 'Dafydd yn cael ei eneinio.'

Mae'n bosibl y bydd yr hanes hwn yn gyfarwydd i'r plant yn barod, felly mae hwn yn fwy o adolygiad o'r hanes.

Cewch baratoi mwy nag un set o 'gerrig', yn dibynnu ar faint o blant sydd yn y grŵp a'u hoedran.

Cyn dechrau'r hanes, dangoswch y siocledi/bisgedi i'r plant a dywedwch wrthynt y byddwch yn eu rhannu ar ddiwedd yr hanes. Gofynnwch i'r plant a ydynt yn credu yr hyn yr ydych newydd ei ddweud wrthynt. Ceisiwch gofio pwy sy'n eich credu a phwy sydd ddim yn eich credu.

❖ Plant iau: paratowch un set o 'gerrig' a'u cuddio ymlaen llaw. Gwahoddwch y plant i chwilio amdanynt, un ar y tro, a'u darllen. Ar ôl dod o hyd i bob carreg, gwahoddwch y plant i'w rhoi mewn trefn.

❖ Plant hŷn: Paratowch set o 'gerrig' ar gyfer pob pâr/triawd, gyda phob set ar liw papur gwahanol. Esboniwch y bydd angen i'r plant gasglu'r cerrig o'r un lliw a cheisio eu rhoi yn nhrefn y stori. Cymysgwch y 'cerrig' a'u taflu i'r awyr. Darllenwch yr hanes yn ei gyfanrwydd, gan wahodd unigolion i ddarllen yn uchel.

Cymhwyso

Dangoswch y siocledi/bisgedi unwaith eto, a rhoi un i bawb a oedd wedi credu eich gair ar ddechrau'r hanes.

Wrth i'r plant fwynhau bwyta'r melysion, esboniwch mai dyma ydy ystyr 'ffydd' – credu gair rhywun. Roedd gan y plant, neu rai ohonynt, ffydd y buasech yn cadw at eich gair

ac yn rhannu'r siocledi ar ddiwedd yr hanes – a dyma a ddigwyddodd.

Trowch i 1 Samuel 17:45, a'i darllen i'r plant. Roedd gan Dafydd ffydd y byddai Duw'n ei helpu i drechu'r cawr Goliath. Roedd Dafydd wedi profi Duw yn ei gynorthwyo o'r blaen, tra'r oedd yn gwarchod defaid ei dad, ac roedd yn fodlon credu y byddai Duw yn ei gynorthwyo unwaith eto. Atgoffwch y plant am gynnwys Salm 23. Roedd Dafydd yn gweld bod Duw yn edrych ar ei ôl, fel mae bugail yn gofalu am ei ddefaid.

Ychwanegwch y gair 'ffydd' i'r galon o'r wers flaenorol.

Gofynnwch i'r plant i ystyried a oes ganddyn nhw ffydd yn Nuw? Ydyn nhw'n credu yr hyn mae Duw yn ei ddweud? Atgoffwch y plant, ar ôl eu holi am eu syniadau eu hunain, am rai o'r pethau y mae Duw'n ei ddweud, e.e. mae'n ein caru, mae lesu wedi marw drosom, mae lesu'n gallu maddau ein pechodau, mae lesu'n cynnig glanhau ein calonnau, mae pobl lesu i fod i garu ei gilydd a gofalu am yr anghenus.

Ydyn ni'n credu geiriau Duw? Mae geiriau Duw'n llenwi'r Beibl, os hoffem glywed mwy. Rhowch siocled/fisged arall i'r plant a'u gwahodd i feddwl yn dawel am ffydd Dafydd yn Nuw.





SYNIADAU CREFFT

1. Bag Bugail

(Bydd angen i bob plentyn ddod â hen bâr o jîns sydd â phoced ar y cefn - byddwch yn torri un boced o'r jîns, felly mae'n bwysig bod y rhieni'n gwybod am hyn!

Hefyd, bydd angen siswrn, edafedd, cortyn lliwgar i greu strap, rhuban, paent defnydd, botymau, ric rac ac addurniadau eraill, glud cryf, Beiblau, cerdyn, pinnau ffelt).



Torrwch o amgylch un o'r pocedi, gan ofalu cadw'r simiau fel bod y boced yn aros yn gyfan. Gadewch i'r plant bwytho neu ludo'r addurniadau arni ac ychwanegu strap. Trafodwch arferiad bugeiliaid yng nghyfnod Iesu Grist o gario bag bach i ddal pethau oedd angen arnynt wrth ofalu am y defaid, e.e. ffon dafl.

Dywedodd Iesu ei fod e'n fugail da. Mae llawer o adnodau yn y Beibl yn sôn am ofal Iesu drosom. Edrychwch am yr adnodau canlynol a'u copïo ar ddarnau o gerdyn i'w cadw yn y bagiau. Anogwch y plant i rannu'r adnodau gyda'r teulu neu ffrindiau pan fyddant mewn angen.

Salm 55:22; Eiseia 40:11; Ioan 10:11; 1 Pedr 5:7.

2. Llusern



Bydd angen papur, pensel, siswrn, glud, tyllwr, tâp selo, gwllân, pinnau ffelt.

Plygwch ddarn o bapur fel *accordion* gyda phlethau bychain fel y gallwch greu llawer o siapiau bychain ar y plethau. Gnewch siapiau ar y plethau a'u torri allan. Agorwch y papur ac ysgrifennwch yr adnod (1 Samuel 16:7) ar un o'r ymylon. Tapiwch bob pen at ei gilydd i greu cylch. Gnewch ddau dwll a chlymwch ddarn o wlân er mwyn hongian y llusern.

Dyma rai awgrymiadau ychwanegol:

- ❖ disgleirio torts drwy'r llusern
- ❖ gludo dau fath o bapur at ei gilydd - un papur sgleiniog neu fetalig
- ❖ gorchuddio tin gyda phapur lliwgar, ac yna gludo'r llusern drosto i greu daliwr pensiliau.

3. Tarian

Bydd angen copi o Atodiad 5 ar bawb, ar gerdyn os yn bosibl, pethau i addurno'r darian, tâp selo, darnau o gerdyn a phinnau ffelt.

Trowch i Salm 28:7. Mae Dafydd yn dweud bod Duw yn darian iddo – beth mae hyn yn ei olygu?

Gofynnwch i'r plant i gopïo'r cymal - 'Yr Arglwydd yw fy nharian' ar y darian a'i haddurno. Tapiwch ddarn o gerdyn ar gefn y darian fel bod y plant yn gallu ei dal fel tarian o'u blaenau.

Anogwch y plant i gadw'r darian mewn lle amlwg i'w hatgoffa bod Duw yn edrych ar ôl ei bobl mewn ffordd arbennig iawn.

4. Taflenni Gwaith



GWEITHGAREDD YCHWANEGOL

Cwis

Defnyddiwch y daflen gwis. Hefyd, bydd angen 3 potel mawr blastig a phêl. Gosodwch y poteli gyda gwahanol bellteroedd rhyngddynt, gyda'r botel agosaf werth 10 pwynt, y botel nesaf werth 20 pwynt a'r botel bellaf werth 50 pwynt.

Rhannwch y plant yn dimoedd/parau a gofynnwch y cwestiynau iddynt yn eu tro. Os ydynt yn cynnig ateb cywir, cânt gyfle i geisio bwrw un o'r poteli i lawr. Mae'n rhaid datgan pa botel maent yn anelu ati ac felly does dim pwyntiau yn cael eu cynnig am daro'r botel anghywir. Rhowch wobwr fechan i'r tîm buddugol.

Gêm Gwisgo'r Bugail

Bydd angen set o ddillad neu eitemau addas i fugail ar gyfer pob tîm, e.e. esgidiau glaw, ffon, hen gôt neu 'overalls', cap fflat, dafad (tegan medal) - cewch ddefnyddio'ch dychymyg! Rhannwch y plant yn dimoedd, gyda'r dillad i gyd ym mhen arall yr ystafell. Mae aelodau'r tîm yn cymryd eu tro i redeg at y dillad, i ddewis eitem, a'i wisgo cyn rhedeg yn ôl at ei dîm. Mae'n tynnu'r eitem a'i roi i'r aelod nesaf, sy'n ei wisgo cyn rhedeg i nôl rhywbeth arall i'w wisgo. Mae'r gêm yn parhau nes bod pob aelod o'r tîm wedi cael tro i wisgo i fyny!

Adnod

1 Samuel 16:7 - 'Yr hyn sydd yn y golwg a wêl dyn, ond mae'r Arglwydd yn gweld beth sydd yn y galon.'

❖ Defnyddio'r cyflwyniad PowerPoint sydd ar y GDd, neu

❖ Gwnewch siâp calon, ar bapur coch os yn bosibl, a chopiwch yr adnod arni. Os oes gennych grŵp mawr o blant, ystyriwch eu rhannu'n dimoedd gyda chalon ar gyfer pob tîm. Torrwch y calonnau i 5 darn a'u gosod ar un pen o'r ystafell, gyferbyn â'r timoedd. Mae aelodau'r tîm yn cymryd eu tro i estyn un rhan o'r adnod ac, ar ôl eu casglu i gyd, yn ceisio ffurfio'r adnod a'i dysgu. Gellir ei chwarae fel ras neu yn ras yn erbyn y cloc.

Cymerwch amser i drafod yr hyn a welodd Duw yng nghalon Dafydd ac i herio'r plant i ystyried beth y mae Duw'n ei weld yn ein calonnau ninnau. Pwysleiswch y llawenydd o wybod fod Duw yn fodlon maddau ein pechodau a'n glanhau oddi wrthynt pan fyddwn yn ceisio maddeuant.

GWEDDIAU

1. Beth sydd yn fy nghalon?

Dangoswch ffotograff i'r plant o rywun sy'n adnabyddus i chi, ond nid iddyn nhw. Gofynnwch iddynt ddyfalu sut fath o berson ydyw. Yna, rhannwch ychydig o ffeithiau am y person gyda'r plant - pethau anghyffredin, os yn bosibl.

Pwysleiswch ei bod hi'n amhosibl i ni wir wybod cymeriad person wrth yr allanolion - mae'n rhaid inni dreulio amser gyda rhywun cyn dod i'w hadnabod yn iawn.

Atgoffwch y plant o'r adnod, a'r ffaith bod Duw yn gweld ein calonnau - mae e'n ein hadnabod yn well na neb arall yn y byd i gyd. Rhowch siâp calon i bawb a'u hannog i ysgrifennu gweddi sy'n deillio o'r ffaith bod Duw yn ein hadnabod cystal.

2. Salm 23

Edrychwch ar Salm 23 gyda'r plant o'r Beibl.

Anogwch y plant i ddiolch am rywbeth o'r Salm, e.e.

Adnod 1: diolch Dduw am ofalu amdanom fel mae bugail yn gofalu am ei ddefaid

Adnod 2: diolch Dduw am ein bwyd bob dydd

Adnod 2: diolch am amser tawel i orffwys ac ymlacio

Adnod 3: diolch Dduw am ein harwain trwy ddangos inni yn y Beibl sut i fyw i'th blesio.

Adnod 4: diolch Dduw dy fod gyda ni pan fyddwn yn ofnus.



DRAMA

1. Chwarae rôl

Duw yn dewis Dafydd yn frenin - 1 Samuel 16

Trafodwch sut deimladau brofodd cymeriadau'r hanes, e.e. Samuel, Jesse, brodyr Dafydd, Dafydd ei hun. Byddai'n dda cael llun ohonynt i ddangos i'r plant (gweler Beibl Lliw y Plant, tudalen 116).

Bydd y plant yn gyfarwydd â sefyllfaoedd pan fo pobl yn cael eu 'dewis', e.e. ar gyfer tîm rygbi/pêl-droed/pêl-rwyd a chyda'r teimladau sy'n deillio ohonynt.

Rhannwch y plant yn barau/grwpiau bychain a rhoi un o'r sefyllfaoedd canlynol iddynt i'w thrafod a'i hactio. Neu, efallai y bydd gan y plant eu syniadau eu hunain.

- ❖ Mae'r athro/athrawes yn dy ddewis i fod ar gyngor yr Ysgol;
 - ❖ Nid wyt yn cael dy ddewis ar gyfer y parti canu/tîm chwaraeon;
 - ❖ Mae dy ffrind gorau bob amser yn cael ei d/dewis ar gyfer swyddi pwysig yn y dosbarth;
 - ❖ Rwyt ti'n sâl ar y diwrnod y mae'r plant eraill yn cymryd rhan mewn rhagbrofion ar gyfer rhaglen deledu, felly nid wyt yn cael bod yn rhan ohoni;
 - ❖ Rwyt ti neu dy ffrind gorau, bob amser yn cael eich dewis yn olaf ar gyfer y tîm rownderi/pêl-droed.
- Rhowch gyfle i'r plant i drafod a pharatoi cyflwyniad byr a gwnewch yn siŵr bod amser i bawb gael perfformio.

2. Darlleniad dramatig

Darllenwch hanes 'Dafydd a Goliath' o Feibl Lliw y Plant (tudalen 118, 119). Yna, rhannwch y plant i gymryd rhannau'r gwahanol gymeriadau. Darllenwch yr hanes eto, gyda'r plant yn meimio. Byddai'n syniad da paratoi

gwisgoedd syml i'r plant a'u hannog i 'adlibio' wrth ichi adrodd yr hanes.

3. Cyfansoddi cân

Bydd angen Beiblau plant a darn mawr o bapur.

Beth am fynd ati i gyfansoddi cân o fawl i Dduw? Atgoffwch y plant fod Dafydd wedi cyfansoddi sawl cân - dangoswch lyfr y Salmu iddynt a'u hatgoffa o gynnwys Salm 23, lle mae Dafydd yn gweld Duw'n debyg i fugail. Anogwch y plant i feddwl am frawddegau syml sy'n disgrifio Duw, a'u hysgrifennu ar ddarn mawr o bapur. Efallai y bydd y plant yn cael syniadau wrth edrych drwy Feiblau plant a dwyn i gof hanesion o'r Beibl.

Gosodwch y brawddegau mewn trefn i lunio cân neu gerdd.

Neu, dewiswch dôn adnabyddus a cheiswch ysgrifennu geiriau iddi.

AMSERLEN

Dafydd y Bugail:

Cyflwyno 1; Stori 2;
Crefft 1; Drama 1;
Gêm.

Dafydd yn cael ei eneinio:

Cyflwyno 2 neu 3; Stori 3;
Crefft 2; Drama 2;
Gweddi.

Dafydd a Goliath:

Cyflwyno 4; Stori 4;
Crefft 3;
Drama 3;
Cwis.



Cwis Dafydd

Beth oedd enw brenin Israel ar ddechrau hanes Dafydd? *1 Samuel 16:1*

Pwy oedd y proffwyd yr adeg hynny? *1 Samuel 3:20*

At bwy ddanfonodd Duw Samuel i ddod o hyd i frenin newydd? *1 Samuel 16:1*

Ble oedd Jesse a'i feibion yn byw? *1 Samuel 16:1*

Sawl mab oedd gan Jesse? *1 Samuel 16:10, 11*

Beth oedd gwaith y mab ieuengaf? *1 Samuel 16:11*

I ba genedl oedd Goliath yn perthyn? *1 Samuel 17:3*

Beth oedd taldra Goliath? *1 Samuel 17:4*

Pa arfau oedd gan Dafydd? *1 Samuel 16:40*


Yn enw pwy oedd Dafydd yn ymladd? *1 Samuel 17:45*





Taflen 4 Dafydd: 1 Samuel 16-18

Pa anifeiliaid laddodd Dafydd tra'n gofalu am y defaid? 1 Samuel 17:35
Tynna lun ohonynt.



Dyma un o'r caneuon a gyfansoddodd Dafydd –
roedd e'n gallu chwarae'r delyn hefyd!

“Duw yw fy mugail i,
am ei fod yn rhoi popeth i mi.
Mae'n dod o hyd i gaeau'n llawn o laswellt melys.
Mae'n fy arwain at ddur glân ffres,
ac yn fy rhoi ar lwybrau diogel.
Hyd yn oed pan fydd hi'n dywyll, does dim rhaid i mi ofni,
am fod Duw yno hefyd,
yn fy nghadw'n ddiogel.
Duw yw fy mugail da i.”

Beth ddywed Dafydd y mae Duw yn rhoi iddo?
Tanlinella'r geiriau perthnasol mewn lliwiau gwahanol.
Meddylia! Ydy Duw yn 'fugail' i ti?



Taflen 5 Dafydd: 1 Samuel 16-18

B	W	E	R	T	Y	U	I	O	P
E	D	S	A	D	D	Y	F	A	D
T	N	F	G	C	A	L	O	N	H
H	W	E	L	C	B	N	M	L	L
L	A	C	I	B	J	E	S	S	E
E	E	R	A	N	T	Y	L	H	U
H	W	A	G	S	I	D	F	G	M
E	N	B	U	M	L	O	P	Y	A
M	S	E	B	R	T	L	U	A	S


Fedrwch chi ddod o hyd i'r geiriau o hanes Dafydd yn y chwilair?

- DAFYDD
- SAMUEL
- JESSE
- BETHLEHEM
- ENEINIO
- SAUL
- BUGAIL
- CALON

Llenwch y bylchau:

Danfonodd Duw i eneinio

..... oedd Dafydd.





Taflen 7 Dafydd: 1 Samuel 16-18

Fedri di feddwl am deitl da i'r llun yma o Dafydd a Goliath?

Ysgrifenna dy deitl yma.



Mae rhai geiriau ar goll o'r hanes am Dafydd a Goliath. Llenwa'r bylchau gyda'r geiriau cywir.

Daeth y i ymladd yn erbyn y brenin Saul a'i filwyr.

Roedd ganddyn nhw ddydd anferth yn y fyddin - y cawr

"Pwy sydd am ddod i efo fi? Pwy sy'n ddigon i fy wynebu?"

Doedd neb yn fodlon mentro - roedd ar bawb y cawr mawr.

Roedd tri brawd mawr yn filwyr i Saul.

"Dos â 10, 10 ag i dy frodyr," meddai tad Dafydd wrtho.

Clywodd Dafydd her y cawr, a chynigiodd fynd i ag ef.

Anfonodd y brenin amdano.

"Rydw i wedi lladd ac gyda help Duw," meddai Dafydd wth y brenin.

Cymerodd carreg a'i , ac aeth allan at y cawr.

Trawodd Goliath ar ei gyda un o'r cerrig.



Syrthiodd Goliath i'r llawr, a thorrodd Dafydd ei ben i ffwrdd gyda y cawr.



Taflen 7



Dafydd: 1 Samuel 16-18

Beth sy'n gwneud arweinydd da?
Ysgrifennwch eich syniadau ar y goron.



Beth welodd Duw yng nghalon Dafydd?

Beth mae Duw'n ei weld yn fy nghalon i?



Yr hyn sydd yn y
golwg a wêl dyn, ond
mae Duw yn gweld
beth sydd yn y galon'
1 Samuel 16:7

Wyt ti wedi dysgu'r
adnod yma?

Cofia bod Duw yn fodlon maddau ein pechodau
a rhoi calon lân i bawb sy'n gofyn!!



Chwilair hanes Dafydd

D	W	E	R	F	F	O	N	D	A	F	L	T
B	A	R	A	G	Y	U	I	O	P	W	E	S
F	G	F	H	L	I	Y	T	H	T	R	A	R
D	G	S	Y	A	C	R	B	N	L	U	M	A
B	O	F	T	D	P	F	R	A	L	E	S	M
R	L	M	N	O	D	P	T	E	R	L	G	E
Y	I	H	G	O	F	D	S	A	C	P	B	H
D	A	W	E	J	L	O	I	N	I	E	N	E
O	T	R	T	E	U	A	B	U	G	A	I	L
R	H	I	U	S	O	P	C	L	H	B	N	H
B	A	M	D	S	F	G	H	L	N	M	O	T
C	A	L	H	E	G	S	A	W	E	R	P	E
S	N	E	R	T	O	W	E	L	L	P	M	B

DAFYDD
SAMUEL
JESSE
BETHLEHEM
ENEINIO
SAUL
BUGAIL
CALON
BRODYR
BARA
CERRIG
ARTH
LLEW
GOLIATH
FFON DAFL

Mae'r Beibl yn llawn o gymeriadau arbennig iawn.

Tynna lun dau o dy hoff gymeriadau a meddylia am eiriau sy'n disgrifio beth oedd yn eu calonnau.



Wythnos 1: Mae Duw yn gweld y galon. (1 Samuel 16).

Cefndir i'r athro:

Mae'r hanes yma'n dod ar ôl i Saul gael ei wrthod fel Brenin Israel, ac felly mae'r Arglwydd yn dweud wrth Samuel am fynd ati i chwilio am, ac eninio'r Brenin newydd. Mae Samuel yn oedi, gan ofni am ei fywyd, ond yn anrhydeddu'r Arglwydd ac yn mynd i ble mae Duw yn ei gyfeirio.

Bwriad y wers:

- ❖ Dysgu'r bobl ifanc fod Duw wedi dewis Dafydd, a oedd yn fugail, y person olaf efallai y byddai pobl yn disgwyl i Dduw ddewis yn frenin.
- ❖ Mae Duw yn dewis Dafydd am yr hyn sydd yn ei galon (1 Sam 16:18 & 17: 34-37 & 17: 45-47)
- ❖ Mae Duw yn gweld y cwbl sydd yn ein calon ni, ond mae e'n ymddiried ynom ni i wneud ei waith.
- ❖ Gyda'r Ysbryd Glân, ac yn enw'r Arglwydd, mae modd i ni gyflawni ein pwrpas ni hefyd.

Cyflwyno'r Thema

1. Gêm

Gwneud grid 5x5 mawr ar y llawr, allan o ryw 25 darn o bapur gwyn, A4. Mae angen rhoi 'X' ar waelod un papur ym mhob rhes, sydd yn gwneud llwybr o un ochr o'r grid i'r llall. Rhaid i'r bobl ifanc ddewis y papurau cywir, er mwyn cyflwyno'r dasg o fynd o un ochr i'r llall.

2. Cwis Aml ddewis

Rhaid i'r bobl ifanc wneud y dewis cywir i ennill pwynt, neu maen nhw'n colli pwynt os yw'r dewis anghywir yn cael ei wneud.

1. Pwy yw'r dyn mwyaf cyfoethog yn y byd?
Warren Buffett neu Bill Gates
2. Pa gar yw'r car cyflyma' yn y byd?
Bugatti Veyron neu SSC Ultimate Aero
3. Beth yw enw prif actor y ffilm 'Harry Potter'?
Daniel Radcliffe neu Peter Radcliffe
4. Pa gwmni ffasiwn yw'r mwyaf llwyddiannus?
Dolce & Gabbana neu Giorgio Armani
5. Beth yw 25 x 30?
725 neu 750
6. Pa gymeriad cartŵn sydd yn byw mewn pinafal o dan y môr?
Spongebob Squarepants neu Taz
7. Beth yw'r enw ar blanhigyn sydd â dail trwy'r flwyddyn i gyd?
Bytholwyrdd neu Bytholdymor
8. Pa liw yw fflag Thailand?
Coch, glas a gwyn neu Coch, melyn a gwyrdd

Atebion

1. Bill Gates. 2. SSC Ultimate Aero.
3. Daniel Radcliffe. 4. Dolce&Gabbana.
5. 750. 6. Spongebob Squarepants.
7. Bytholwyrdd. 8. Coch, glas a gwyn.

Darllen a deall y Beibl

1 Samuel 16: 1-13

Rhannwch y dosbarth i grwpiau bach neu barau, yna gofynnwch i'r bobl ifanc fynd ati i wneud aralleiriad o'r darn (ad.1-13), gan esbonio'r stori i weddill y dosbarth yn eu tro. Efallai y byddai gwobr i'r grŵp sy'n cyflwyno orau yn syniad da. Ar ôl i'r bobl ifanc orffen, ewch trwy'r stori eto, gyda'r dosbarth cyfan, gan ddefnyddio darnau o aralleiriad y bobl ifanc er mwyn esbonio'r stori'n gyflawn. Ceisiwch esbonio fod Duw wedi arwain Samuel at Dafydd, a bod Samuel wedi gwrando ar lais yr Arglwydd. Trwy wrando ar yr hyn mae Duw yn ei ddweud wrtho, mae Duw yn cadw Samuel yn ddiogel. Ar ôl hynny, mae Samuel



Oed 11 - 14

Dafydd: 1 Samuel 16-18

yn gweld nifer o blant Jesse, ac yn ei olwg ef, roedd y rhan fwyaf o'r bechgyn eraill yn ymddangos fel dewisiadau da i fod yn Frenin, ond roedd Duw yn edrych ar yr hyn oedd yn y galon. Roedd Duw yn gweld calon Dafydd. Gadewch i'r bobl ifanc edrych am yr atebion sydd yn 1 Sam. 16: 18, 17:34-37, 45-47). Eto, mae Samuel yn gwrandao ar Dduw, ac yn eneinio Dafydd. Wrth i Dafydd gael ei eneinio, mae ysbryd yr Arglwydd, neu'r Ysbryd Glân yn disgyn ar Dafydd, ac mae Duw gydag ef yn yr Ysbryd o hynny ymlaen.

Cymhwyso

Roedd Duw yn gweld calon Dafydd, ac yn ei ddewis i wneud gwaith penodol fel Brenin. Roedd e'n gweld fod gan Dafydd ddoniau a nodweddion i gyflawni'r gwaith, a gyda chymorth yr Ysbryd Glân, roedd modd i Dafydd i fod yn llwyddiannus yn y gwaith.

Mae gan bob Cristion bwrpas, ac mae Duw yn ein galw i sefyllfaoedd, swyddi a dyletswyddau gwahanol.

Mae Duw hefyd yn ein galw ni i wneud gwaith gwahanol yn y byd, e.e. cenhadu, bod yn weinidog, neu hyd yn oed i fod mewn band Cristnogol (byddai hi'n dda i sôn fod pob swydd yn bwysig, hyd yn oed rhai seciwlar, ac nad yw ein swydd yn ein gwneud yn well pobl). Felly, beth mae Duw yn ei weld yn ein calonnau ni? Beth am roi siâp calon papur i bawb, a gofyn iddynt feddwl sut fath o ddoniau/sgiliau/bersonoliaeth sydd ganddynt a'i ysgrifennu ar y galon. Wedyn, gofynnwch iddynt feddwl sut y byddai Duw yn gallu defnyddio'r sgil/dawn/personoliaeth yna mewn ffordd y byddai o fudd i bobl eraill?

Amser gweddi

Ar ochr arall y galon, gofynnwch i'r plant ysgrifennu gweddi, yn diolch i Dduw am ei fod yn ein defnyddio ni, ac yn ymddiried ynom, ac i ddweud wrth Dduw ein bod eisiau cyflawni ein

pwrpas, ac yn pwyso arno Ef i ddangos ei gynllun i ni.

Gweithgarwch ychwanegol

Dysgu Adnod- 1 Samuel 16:7b

"Yr hyn sydd yn y golwg....."Rhannwch y dosbarth yn barau a rhoi'r adnod iddynt, wedi ei dorri'n ddarnau (un gair ar un darn o bapur.) Gofynnwch i'r plant i drefnu'r adnod o'r diwedd i'r dechrau, yna dysgu'r adnod o'r dde i'r chwith, fel tipyn o sialens!

Wythnos 2:

Duw sy'n fuddugoliaethus! (1 Samuel 17)

Cefndir i'r Athro:

Erbyn hyn, mae'r Philistiaid wedi cyhoeddi rhyfel yn erbyn yr Israeliaid. Mae Dafydd wedi ei eneinio'n Frenin gan Samuel er nad yw Dafydd wedi cael ei gydnabod yn gyhoeddus eto. Mae Saul, y brenin presennol wedi cynhesu at Dafydd(17:21), wrth i Dafydd weini arno yn ei lys.

Bwriad y wers:

- ❖ Dangos fod Duw yn fyw, ac yn arwain ei bobl trwy eu bywydau, yn 'cerdded' gyda nhw
- ❖ Mae Duw wedi gofalu trosom o'r blaen, fe fydd yn ein cadw ni eto.
- ❖ Bydd Duw yn dangos mai Ef sydd Dduw.

Cyflwyno'r Thema

1. Gêm

Rhannwch y dosbarth yn ddau dîm, yna gofynnwch i'r timau ddewis un o bob tîm i wisgo mwgwd. Gofynnwch i'r bobl ifanc i arwain yr unigolion sy'n gwisgo mwgwd o un pen o'r ystafell i'r llall. Rhwch ambell fwrdd a chadair yn y ffordd, i wneud pethau'n anodd! Y tîm cyntaf i orffen sydd yn ennill. Gwnewch hyn eto os oes



amser, gyda pherson gwahanol yn gwisgo mwgwd, a newid y cwrs ychydig.

2. Gornest wreslo-braich

Cynhaliwch ornest 'brwydr braich', i weld pwy yw'r cryfaf! Gofynnwch gwestiynau i'r plant i'w cael i feddwl, e.e. a oes unrhyw beth arall yn bwysig mewn brwydr, heblaw am gryfder?

Darllen a deall y Beibl (1 Samuel 17: 1-50)

Cyn mynd ati i adrodd y stori am Dafydd a Goliath, rhowch ambell lun sy'n gysylltiedig â'r stori i'r bobl ifanc, a gofyn iddynt eu rhoi yn y drefn maen nhw'n meddwl sy'n iawn, e.e. rhyfelwyr, cawr, bugail, bwyd, ffon dafl, carreg, talcen, dyn yn syrthio. Mae'r un sy'n trefnu orau yn ennill gwobr o ryw fath. Cewch ddefnyddio lluniau o'r taflenni gwaith.

Mae'r darlenniad yn y Beibl ychydig yn hir, felly byddai gwneud stori yn eich geiriau eich hunain yn syniad da.

Dyma'r prif bwyntiau


- ❖ y rhyfel rhwng y Philistiaid a'r Israeliaid,
- ❖ fod Goliath, a'i faint yn 6 chufydd o hyd (9 troedfedd), a'i fod mor gryf.
- ❖ fod Goliath yn herio'r Israeliaid, a'r Israeliaid yn ofnus!
- ❖ Wrth i Dafydd fugeilio, gofynnodd ei dad iddo wneud ffafr ag ef, a mynd â bwyd i'w frodyr yn y rhyfel.
- ❖ Bod Dafydd yn rhoi ei hun ymlaen i ymladd gyda Goliath, ond nad oedd Saul yn meddwl y byddai Dafydd yn llwyddo.
- ❖ Mae Dafydd yn dweud y bydd Duw yn ei waredu (ad. 37), ac mae Saul yn gadael iddo fynd.
- ❖ Soniwch fod Dafydd wedi dewis peidio â mynd â llawer o arfau, dim ond ffon dafl a phum carreg.
- ❖ Mae Goliath yn herio eto, a Dafydd yn ymateb, ac yn dweud ei fod yn dod yn enw'r Arglwydd.

- ❖ Gydag un garreg, ac un ergyd, mae Dafydd yn llwyddo i daro Goliath ar ei dalcen, fel ei fod yn syrthio i'r llawr yn farw.

Cymhwyso

Bydd angen llun ffon bugail a llun coron (gweler y taflenni gwaith).

Fel y gofalodd Duw am Dafydd yn ei waith fel bugail, mae Dafydd yn sicr fod yr Arglwydd yn mynd i ofalu amdano wrth ymladd gyda Goliath. Mae'r Cristion yn profi presenoldeb a gofal Duw, yn gwybod bod Duw yn ei gynnal o ddydd i ddydd, yn enwedig mewn adegau anodd. Ysgrifennwch y geiriau GOFAL a PRESENOLDEB ar y ffon.



Roedd Dafydd yn adnabod Duw fel ei Arglwydd – y bos yn ei fywyd. Aeth Dafydd i ymladd yn enw'r Arglwydd, er mwyn dangos mai ei Dduw ef oedd y Duw byw yn haeddu cael y flaenoriaeth ym mhob peth.

Mae'r Cristion hefyd yn cydnabod mai gwranddo ar Dduw a bod yn ufudd iddo ef yw'r peth pwysicaf oll mewn bywyd. Mae'n gwybod bod hyn yn plesio Duw ac yn rhoi clod iddo. Ysgrifennwch y geiriau ARGLWYDD a CLOD ar y goron.

Rhannwch hanes personol am sut mae Duw wedi eich helpu yn y gorffennol. Holwch y bobl ifanc os ydyn nhw wedi profi cymorth Duw mewn sefyllfa benodol.

Anogwch y bobl ifanc i ymddiried yn Nuw am y pethau'n sy'n eu poeni heddiw - h.y. yn y presennol.



Ystyriwch - ydy ein bywydau yn plesio Duw ac yn dwyn clod iddo?

Ysgrifennwch y geiriau *ffrindiau, arian, amser hamdden, ysgol, meddyliau, siarad, trin pobl eraill*, ar y goron un ar y tro gan ofyn i'r grŵp i ateb y cwestiynau canlynol:

- ❖ ydy Duw yn fos ar yr agwedd yma o'n bywydau?
- ❖ ydyn ni'n gwranddo ar beth sydd gan Dduw i ddweud am yr agwedd yma o'n bywyd?
- ❖ ydyn ni'n ceisio plesio Duw yn y rhan yma o'n bywydau?

Amser Gweddi

Gofynnwch i'r bobl ifanc feddwl am ryw sefyllfa neu amser mae Duw wedi eu cynnal nhw trwyddo yn y gorffennol, a gofyn iddynt weddïo ar Dduw gan ddiolch iddo am eu cynnal. Gweddiwch wedyn dros y bobl ifanc, y bydd Duw yn eu cadw yn y dyfodol, ac y bydd y bobl ifanc yn ymddiried yn llwyr yn yr Arglwydd.

Gweithgaredd Ychwanegol Cystadleuaeth

Gofynnwch i'r bobl ifanc i ddylunio golygfa o'r hanes, er mwyn dangos rhywbeth maent wedi ei ddysgu. Rhwch wobwr i'r enillydd.

Wythnos 3:

Duw sy'n ein hamddiffyn. (1 Samuel 18:10- 19:18)

Cefndir i'r Athro

Erbyn pennod 18, mae Goliath wedi ei ladd gan Dafydd, ac mae Dafydd yn dipyn o arwr yn Israel, ac os rhywbeth, yn cael ei gyfrif yn well na Saul; 1 Sam 18:7: "Lladdodd Saul ei filoedd, a Dafydd ei fyrddiynau."

Mae Saul yn digio yn arw (18:8), ac o'r diwrnod hwnnw ymlaen, mae Saul yn 'cadw llygad ar Dafydd.'

Bwriad y wers

- ❖ Dangos fod Duw yn amddiffyn Dafydd rhag Saul (18:8, 9, 12, 15, 29).
- ❖ Dangos fod Duw yn amddiffyn Dafydd trwy Jonathan (19:1-7) a Michal (19:11-17).

Cyflwyno'r Thema

1. Darn o ffilm

Dangoswch ddarn o ffilm Spiderman 3, ble mae Peter Parker yn achub ei gariad (MJ), a lle mae Peter Parker yn cael ei achub gan ei ffrind gorau, Harry! Gallwch ddangos dau ddarn, ac mae'r amseroedd wedi eu nodi isod.

- ❖ 1:48:20-1:49:30 (Pennod 43)

- ❖ 1:55:33-1:59:15 (Pennod 46)

2. Stori am ffrind

Soniwch am ffrind i chi. Dywedwch am eich perthynas, a dweud y byddech chi'n barod i wneud unrhyw beth dros y person yna, bod y person yna yn werthfawr iawn i chi, eich bod yn caru'r person.

Esboniwch mai thema'r sesiwn heddiw yw 'ffrindiau yn helpu Dafydd.'



Oed 11 - 14

Dafydd: 1 Samuel 16-18

Darllen a deall y Beibl (1 Samuel 18:10- 19:24)

Bydd angen Beiblau a chopïau o Beibl Lliw y Plant, papur a beiros.

Rhannwch y bobl ifanc yn ddau grŵp. Gofynnwch i un grŵp ddarllen hanes 'Saul yn troi yn erbyn Dafydd' tudalen 120-121 a'r grŵp arall i ddarllen 'Dafydd ar ffo' tudalen 122-123. Gofynnwch i'r bobl ifanc greu perfformiad o'r hanes, yn eu dull eu hunain - meim, darlenniad dramatig, dawn, cân.

Cyn dechrau gofynnwch iddynt nodi prif bwyntiau'r hanes.

Cymhwyso

Atgoffwch y bobl ifanc fod Duw wedi eneinio Dafydd yn frenin, a bod Dafydd yn dal i ufuddhau i Dduw a byw i'w blesio. Oherwydd hynny, mae Duw yn rhoi yn ffrindiau i Dafydd, Michal a Jonathan, er mwyn ei gynorthwyo a'i amddiffyn. Mae Dafydd a Jonathan yn ffrindiau gorau, er bod Jonathan yn fab i Saul, ac mae Michal a Dafydd yn caru ei gilydd, er bod Michal yn ferch i Saul! Mae Duw yn gwarchod Dafydd, ac yn ei fendithio trwy ei berthynas gyda'r ddau.

Mae Duw hefyd yn rhoi pobl ar ein llwybr ni, trwy daith bywyd. Mae e'n rhoi teulu, ffrindiau, a phobl sy'n ein caru i ni. Mi fydd Duw yn aml yn ein hamddiffyn, neu yn ein cynorthwyo, ac yn rhoi cwmni i ni, trwy'r bobl yma.

Amser Gweddi

Eisteddwch i lawr gyda'r bobl ifanc, a rhoi darn o bapur A4 i bawb. Gofynnwch iddynt wneud lluniau o'r bobl sydd yn bwysig iddynt ar y papur. Wrth i'r bobl ifanc wneud hyn, gofynnwch gwestiynau iddynt, fel "Wyt ti'n meddwl fod Duw yn dy amddiffyn trwy dy deulu, a'th ffrindiau?", er mwyn eu cael i feddwl am yr hyn a soniwyd yn y cymhwysiad. Ar ôl gorffen y llun, ewch ati i weddio yn ddistaw fel dosbarth, gan ddiolch i Dduw am ein cynnal, ein caru, ac am roi llawenydd i ni, ac am roi'r bobl arbennig yma i ni yn ein bywydau. Awgrymwch fod y bobl ifanc i

roi'r papur i fyny yn eu hystafelloedd gwely, a gweddio fel y gwnaethant yn y wers, yn gyson.





Gweithgaredd Ychwanegol

Gêm Ffoi!

Rhannwch y dosbarth yn ddau. Enwch un tîm yn 'Tîm Saul', a'r tîm arall yn 'Tîm Dafydd'. Bwriad y gêm yw i Dîm Dafydd fynd o un ochr o'r ystafell i'r llall, ac mae'n rhaid i Dîm Saul eu dal. Mae'n fwy o hwyl os yw pawb ar eu pen-gliniau, ond bydd yn rhaid bod yn ofalus, a gwneud asesiad risg os ydych am wneud hyn (iawn ar garped, efallai ddim ar bren!!) - efallai cant sefyll ar un coes!!






Atodiad 1
Dafydd: 1 Samuel 16-18





Atodiad 2
Dafydd: 1 Samuel 16-18





Atodiad 3
Dafydd: 1 Samuel 16-18





Atodiad 4

Dafydd: 1 Samuel 16-18

Daeth y Philistiaid i ymladd yn erbyn y brenin Saul a'i filwyr. Roedd ganddyn nhw ddyn anferth yn eu byddin - y cawr Goliath.

Roedd Goliath yn fawr ac yn gryf, a doedd neb yn gallu gwneud niwed iddo. Roedd pawb yn ofni'r cawr mawr haearn.

Aeth Dafydd â bwyd i'w dri brawd mawr a oedd yn filwyr i Saul.

Clywodd Dafydd y cawr Goliath yn herio milwyr Saul, "Pwy sydd am ddod i ymladd efo fi? Pwy sy'n ddigon dewr i fy wynebu i?"

"Does dim ofn arna i, rydw i'n barod i ymladd gyda Goliath. Bydd Duw yn fy nghadw'n ddiogel rhag y cawr."


Rhoddodd y brenin wisg milwr i Dafydd, ond roedd popeth yn rhy fawr iddo. Roedd y cleddyf yn rhy drwm!

Doedd Goliath ddim yn credu fod bachgen yn dod i ymladd yn ei erbyn. Chwarddodd dros y lle!

Cymerodd Dafydd bum carreg o lan yr afon a rhoi un ohonynt yn ei ffon dafl. Trawodd y garreg Goliath ar ei dalcen a'i daro i'r llawr.



Atodiad 5
Dafydd: 1 Samuel 16-18





Darlleniad gyda synau

Dylai'r gynulleidfa greu effeithiau sain sy'n cyd-fynd â geiriau penodol o'r hanes:

Bugail / bugeilio = sŵn defaid yn breffu

Cawr = codi breichiau i'r awyr a chwyrnu'n ffyrnig

Brodyr = 'Be' ti'n 'neud yma Dafydd?'

Ofn = cnocio pengliniau a chnoi ewinedd.

Byddai'n syniad ymarfer y synau cyn cychwyn ar y darlleniad!

“Dyma hanes bachgen o'r enw Dafydd. Bugail oedd Dafydd, yn gofalu am ddefaid ei dad. Roedd gan Dafydd 6 o frodyr – ac ef oedd yr ieuengaf.

Roedd brodyr Dafydd wedi mynd i ffwrdd i ymladd gyda byddin y brenin Saul yn erbyn y Philistiaid.

Roedd gan y Philistiaid gawr yn eu byddin – dyn anferthol o'r enw Goliath.

Doedd neb o fyddin Saul, gan gynnwys brodyr Dafydd, yn fodlon mentro yn erbyn y cawr, Goliath. Roedd ar bawb ei ofn yn fawr!

Un diwrnod, dywedodd tad Dafydd y bugail bod angen iddo fynd â bwyd i'w frodyr a gwneud yn siŵr eu bod yn iawn.

Pan gyrhaeddodd Dafydd y bugail, clywodd y cawr yn gweiddi ar draws y wlad, “Pwy sy' am ddod i ymladd yn fy erbyn i?” Nid oedd Dafydd y bugail yn medru credu bod milwyr Saul yn ofni'r cawr.

Aeth at ei frodyr. “Does dim ofn arna i. Mae Duw wedi gofalu amdanaf wrth i mi fugeilio, bydd Duw yn fy helpu i drechu'r cawr.”

Pan welodd Goliath y cawr fod bugail yn dod allan i ymladd yn ei erbyn, chwarddodd dros y lle. Ond doedd dim ofn ar Dafydd.

Cymerodd 5 carreg o lan yr afon, a rhoi un yn ei ffon dafl. Taflodd y garreg tuag at y cawr. Trawodd y garreg y cawr ar ei dalcen. Syrthiodd i'r llawr. Rhedodd y bugail ato a thorrodd ei ben i ffwrdd. Dyna ddiwedd y cawr Goliath. Roedd pawb yn gwybod bod Duw Dafydd y bugail ifanc yn gryfach na neb!”



Buddugoliaeth!

Mae'r oedfa hon yn seiliedig ar hanes Dafydd a Goliath (1 Samuel 17).

Mae cyflwyniad *PowerPoint* o'r Gwasanaeth ar gael ar y GDd.

Bydd cyfle i'r plant gymryd rhan yn ystod y gwasanaeth trwy gyflwyno peth o'r gwaith sydd wedi ei gyflawni yn ystod gwersi'r Ysgol Sul.

Ceir rhestr o ganeuon addas ar ddiwedd y gwasanaeth. Beth am geisio cael rhai o'r plant /pobl ifanc i gynorthwyo i gyfeilio yn ystod y gwasanaeth?

Defosiwn: Gair o groeso.

Darlleniad Salm 8, gyda esboniad bod yr oedfa heddiw yn seiliedig ar awdur y Salm hon, sef Dafydd.

Gweddi, Cân/Emyn.

Cyflwyniad 1: Buddugoliaeth!

Trafodwch beth yw ystyr y gair 'buddugol/buddugoliaeth' gyda'r gynulleidfa.

Naill ai, dangoswch bapurau newydd cyfredol sy'n olrhain hanes buddugoliaeth ddiweddar, *neu*, dewch o hyd i luniau o'r we a'u cynnwys yn y cyflwyniad *PowerPoint*.

Yna, trafodwch yr achlysur penodol hwnnw mewn mwy o fanylder, e.e. pwy sgoriodd y gôl dyngedfennol, pwy oedd y gôl-geidwad, beth oedd y sgôr terfynol, pwy enillodd 'man of the match'? Esboniwch wrth y gynulleidfa fod y plant am gyflwyno hanes un o fuddugoliaethau enwocaf y Beibl yn y gwasanaeth heddiw, hanes Dafydd a Goliath.

Eitemau gan y plant

Gall y plant gyflwyno unrhyw beth o'u gwaith o'r gwersi - dangos y gwaith llaw (gydag esboniad o'r cysylltiad â'r wers), adrodd rhigwm neu weddi, eitem o'r adran ddrama.

Cân: Duw fy nhad sydd gerllaw - Rhif 6, Tyrd i Ddathlu

Os nad ydych wedi cael amser i ddysgu'r gân, byddai'n braf i bawb ymuno i'w dysgu.

Cyflwyniad 2: Hanes Dafydd a Goliath (1 Samuel 17)

Naill ai, Darlleniad o Beibl Bach i Blant, tud.192-199, gan y plant neu oedolyn;

Neu, ddarlleniad gydag effeithiau sain - Atodiad 6.

Dangoswch lun o Dafydd a Goliath i'r gynulleidfa (ar y PPT neu o lyfr), a gofynnwch i'r plant pwy drechodd Goliath?

Dangoswch 1 Samuel 17:46a. 'Heddiw bydd yr Arglwydd yn dy roi yn fy llaw.'(Os nad ydych yn defnyddio'r cyflwyniad *PowerPoint* byddai'n syniad i gopïo'r adnod yn fawr er mwyn i bawb gael ei gweld).

Darllenwch yr adnod gyda'r plant yn araf gan esbonio mai dyma yw geiriau Dafydd wrth Goliath yn union cyn y frwydr. Yna, gofynnwch iddynt pwy y mae Dafydd yn dweud sy'n rhoi'r fuddugoliaeth iddo?

Roedd Dafydd yn gwybod bod Duw gydag ef ac mai Duw fyddai'n peri ei fod yn trechu Goliath.



Gwasanaeth Teuluol

Dafydd: 1 Samuel 16-18

Eglurwch ychydig o gefndir yr hanes, gan esbonio ofn yr Israeliaid a pha mor fawr a ffyrnig oedd Goliath. Pwysleiswch mai dim ond Dafydd oedd yn credu bod Duw yn gallu gwneud rhywbeth am y sefyllfa!!! Dywedodd Dafydd wrth y Brenin Saul sut yr oedd wedi profi gofal Duw wrth ofalu am ddefaid ei dad a'i fod yn sicr y byddai Duw yn dangos i'r Philistiaid pwy oedd y cryfaf er mwyn i bawb gael gwybod mai Duw Israel oedd yn haeddu parch.

Emyn/Cân

Cyflwyniad 3: Cysgod Iesu

Bydd angen cael cymorth aelodau un teulu ar gyfer y cyflwyniad hwn ac efallai hoffech drafod hyn ymlaen llaw! Byddwch yn ceisio denu sylw'r gynulleidfa at y tebygrwydd sydd rhwng aelodau'r teulu - o ran pryd a gwedd, personoliaethau a diddordebau.

1. Treuliwch ychydig o amser yn trafod gyda'ch 'gwesteion' y pethau sy'n debyg rhyngddynt, e.e. llygaid/gwallt yr un lliw, hoffi chwarae'r gitâr, yn flin yn y bore. Pwysleiswch fod y bobl yma'n debyg i'w gilydd oherwydd eu bod yn perthyn i'w gilydd. Weithiau, byddwn yn gweld aelodau o'r un teulu mor debyg i'w gilydd fel y byddwn yn defnyddio'r ymadrodd, 'mae'n gysgod o'i dad' neu, 'dwi'n gweld ei mam ynddi.'

Yn y Beibl, mae rhai pobl yn gysgod o Iesu Grist - yn gwneud rhywbeth tebyg iddo, neu'n meddwl neu ymddwyn yr un fath ag ef. Mae Dafydd yn un ohonynt. Mae'r fuddugoliaeth a gafodd Dafydd dros Goliath yn gysgod o fuddugoliaeth gafodd Iesu Grist.

2. Dangoswch lun o'r groes a'r bedd gwag (sleid ar y PPT neu os byddwch yn defnyddio llun o lyfr, bydd angen gosod y gair 'Buddugoliaeth' wrth y bedd gwag).

Mae'r Beibl yn dweud bod gan bawb yn y byd elyn - sef pechod. Mae pob un ohonom yn cael ein geni gyda phechod yn ein calonau ac, oherwydd hyn, byddwn yn pechu bob dydd a byddwn yn gorfod marw. Nid ydym yn gallu cael gwared â'n pechod ein hunain, dydyn ni ddim yn gallu trechu'r gelyn - pechod - ein hunain.

Gofynnwch y ddau gwestiwn canlynol i gadarnhau'r cysylltiad gyda hanes Dafydd.

'Pwy oedd gelyn pobl Dduw?' Goliath a'r Philistiaid.

'Pwy oedd yr unig un a oedd yn gallu trechu Goliath?' Dafydd - gyda chymorth Duw.

Ar y groes, trechodd Iesu'r gelyn pechod. Iesu oedd Duw'r mab a dim ond ef oedd â'r gallu i drechu pechod. Pan fu farw Iesu ar y groes roedd yn cymryd fy mhechod i arno ef ei hun, roedd e'n cymryd eich pechod chithau arno ef ei hun. Roedd yn marw yn ein lle ac yn ennill buddugoliaeth dros bechod. Sut ydyn ni'n gwybod hyn? Am fod Iesu wedi atgyfodi o'r bedd. Mae'r bedd gwag yn brawf fod Iesu wedi curo pechod!

Gweddïau

Esboniwch fod y weddi ganlynol yn seiliedig ar un o'r Salmau a ysgrifennwyd gan Dafydd, Salm 25. Gwahoddwch y gynulleidfa i ystyried fod Dafydd yn credu bod Duw'n rhoi buddugoliaeth iddo o ddydd i ddydd. Yn y Salm, mae Dafydd yn ceisio cymorth Duw i wynebu'r problemau y byddai'n siŵr o godi, a chymorth Duw i ddelio gyda'i bechod.

Byddwn ninnau'n wynebu problemau hefyd, amgylchiadau anodd a phechod. Rydym yn gallu profi cymorth Duw drwy'r cwbl a dylem ninnau gael ffydd y bydd Duw yn rhoi buddugoliaeth i bawb sy'n ceisio nerth ac arweiniad ganddo.

Darllenwch y weddi, ac anogwch y gynulleidfa i weddio'n bersonol wrth ichi oedi ar ôl pob llinell.



Gwasanaeth Teuluol Dafydd: 1 Samuel 16-18

Gweddïwn: Salm 25

'Arglwydd, rwy'n troi fy meddwl a'm calon atat ti. Rwy'n ymddiried ynot ti.

Dangos i mi'r ffordd i dy blesio, arwain fi a dysga fi beth sy'n wir.

Ti sy'n fy achub. Bydd yn drugarog wrthyf. Yn dy gariad, maddau i mi.

Yr wyt yn dda, o Arglwydd. Yr wyt yn caru'r rhai sy'n dy ofni ac sy'n ceisio cadw dy gyfraith.

Mae gennyf lawer o drafferthion, Arglwydd. Gwna fi'n rhydd ohonynt.

Amddiffyn fy mywyd ac achub fi. Ti yw'r un sy'n rhoi gobaith i mi. Amen'

Cymhwyso i'r oedolion (pe dymunech)

Gall y plant lenwi taflen waith yn ystod yr amser hwn.

Awgrymiadau am emynau a chaneuon:

Caneuon Ffydd: 308, 400, 245, 712

Tyrd i Ddathlu: 2, 6, 18, 24,

Y Cyntaf a'r Olaf: 1, 3, 9, 12, 24